Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tir Morfa

Ffordd Derwen
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 2RN

Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Tir Morfa

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Tir Morfa |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Arbennig a gynhelir |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 114 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 83 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector ysgolion arbennig a gynhelir yw 45.8%) | 43.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector ysgolion arbennig a gynhelir yw 100.0%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/01/2025 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/05/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/01/2026 |

## Mwy o wybodaeth

Mae Ysgol Tir Morfa yn ysgol ddydd arbennig sydd wedi'i lleoli ar draws dau safle yn Y Rhyl ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Ddinbych.

Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau ar gyfer disgyblion 3–19 oed. Mae disgyblion â'r anghenion dysgu ychwanegol a'r anghenion meddygol mwyaf cymhleth yn cael eu haddysgu ar y prif gampws, tra bod llawer o ddisgyblion hŷn yn mynychu safle Ffordd Grange, ac yn cael mynediad at y prif gampws ar gyfer sesiynau menter.

Mae 125 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae bron pob un o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Nod yr ysgol yw darparu amgylchedd dysgu hapus a diogel i feithrin disgyblion mewn medrau cyfathrebu, annibyniaeth a medrau bywyd gydol oes.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae gan leiafrif sylweddol o ddisgyblion anawsterau dysgu cymedrol, yn enwedig yn y garfan oedran uwchradd. Mae gan leiafrif o ddisgyblion gyflwr y sbectrwm awtistig neu anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Prin yw'r disgyblion sydd ag anawsterau corfforol a/neu feddygol neu anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, ac mae gan ychydig iawn o ddisgyblion namau synhwyraidd fel nam ar y golwg neu nam ar y clyw.

Mae'r ysgol, ar ran yr awdurdod lleol, yn darparu gwasanaeth cymorth allymestyn i ysgolion yn y sir. Ni arolygwyd y gwasanaeth hwn.

Mae'r ysgol, mewn partneriaeth â phrifysgolion lleol, yn ysgol letyol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Tir Morfa yn darparu amgylchedd dysgu hynod gefnogol a gofalgar lle mae disgyblion yn cael eu hadnabod yn eithriadol o dda ac yn cael help i wneud cynnydd ystyrlon o'u mannau cychwyn unigol. Caiff addysgu ei gynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion disgyblion, ac mae staff yn defnyddio arferion clir, adnoddau wedi'u dewis yn dda ac asesiadau parhaus i helpu disgyblion i ddal ati i ganolbwyntio a deall eu dysgu. Caiff disgyblion eu canmol yn rheolaidd a'u helpu i ddeall beth maent wedi'i gyflawni a beth fyddant yn ei ddysgu nesaf. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol.

Mae cyfathrebu yn un o brif gryfderau'r ysgol. Mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau, fel arwyddion, symbolau, dyfeisiau a gwrthrychau cyfathrebu, i helpu disgyblion i fynegi dewisiadau, teimladau a syniadau. Mae darllen yn rhan allweddol o'r gwaith hwn ac yn cael ei addysgu mewn ffordd ymarferol a chynhwysol sy'n helpu disgyblion i ddefnyddio medrau darllen mewn bywyd bob dydd. Mae disgyblion hefyd yn datblygu medrau rhifedd yn dda trwy weithgareddau bywyd go iawn fel siopa, coginio a gwaith menter. Mae gweithgareddau creadigol a thasgau datrys problemau yn helpu disgyblion i fagu hyder, annibyniaeth a medrau meddwl.

Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio o amgylch cyfnodau datblygu disgyblion yn hytrach na'u hoedran. Mae llwybrau dysgu clir yn helpu disgyblion i fagu annibyniaeth a pharatoi ar gyfer bywyd oedolyn. Mae disgyblion hŷn yn elwa ar gyfleoedd cryf o ran dysgu yn gysylltiedig â gwaith a menter, yn yr ysgol ac yn y gymuned, fel ei gilydd.

Mae lles disgyblion yn gryfder arwyddocaol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwresog ac ymddiriedus ac yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol i gefnogi anghenion emosiynol, meddygol a phresenoldeb disgyblion. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r ysgol yn fawr ac yn sôn am newidiadau cadarnhaol yn hyder a hapusrwydd eu plant.

Mae arweinyddiaeth yn gryf a gofalgar, gyda systemau clir ar waith i wirio cynnydd a gwella'r ysgol. At ei gilydd, mae disgyblion yn ddiogel, yn hapus ac wedi eu paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu’r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Parhau i rannu arferion effeithiol i sicrhau bod y cwricwlwm a’r addysgu yn diwallu anghenion pob un o’r disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

# Prif werthusiad

### Arweinyddiaeth gref, wedi'i gyrru gan werthoedd sy'n sicrhau sefydlogrwydd ac yn paratoi disgyblion ar gyfer y dyfodol

Mae arweinyddiaeth yn Ysgol Tir Morfa yn gryf, yn cael ei gyrru gan werthoedd ac yn hynod gynhwysol, gan greu cymuned ysgol anogol lle mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi i ffynnu a pharatoi'n hyderus ar gyfer eu camau nesaf. Mae arweinwyr yn meithrin diwylliant o ddidwylledd, parch ac ymddiriedaeth broffesiynol. Mae perthnasoedd ar draws yr ysgol yn gryf, ac mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae staff yn disgrifio arweinwyr fel pobl agos atoch, ystyriol a hyderus, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at forâl ac ymdeimlad ar y cyd o ddiben. Mae rhieni'n parchu arweinwyr yr ysgol yn fawr, ac yn gwerthfawrogi ymagwedd gynhwysol ac ymatebol yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu gweledigaeth strategol glir ac wedi'i chyfleu'n dda sy'n rhoi anghenion disgyblion, addysgu o ansawdd uchel a pharatoi ar gyfer bywyd oedolyn yn ganolog i waith yr ysgol. Caiff y weledigaeth hon ei deall yn dda ar draws cymuned yr ysgol ac mae wedi cael ei chynnal yn effeithiol trwy gyfnod o newid sylweddol mewn arweinyddiaeth. Mae cynllunio olyniaeth yn ofalus a chydweithio cryf o fewn y tîm arweinyddiaeth a sefydlwyd yn ddiweddar wedi sicrhau parhad, sefydlogrwydd a chyfeiriad eglur.

Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i les a gwelliant parhaus trwy eu hymatebion pwyllog ac ystyriol i bryderon. Mae trefniadau ar gyfer gwrando ar farn dysgwyr yn effeithiol, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod eu barn yn cael ei chymryd o ddifri, gan atgyfnerthu diwylliant lle mae cynhwysiant, ymddiriedaeth a gwelliant yn ganolog i arfer bob dydd.

### Cwricwlwm wedi'i yrru gan gyfnod datblygiadol, nid oedran, i sicrhau annibyniaeth a pharodrwydd ar gyfer y dyfodol

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm tra ystyriol ac esblygol, y mae dealltwriaeth gref ar y cyd o ddilyniant yn sail iddo, sydd wedi'i wreiddio yn anghenion datblygiadol disgyblion yn hytrach na disgwyliadau yn gysylltiedig ag oedran. Mae llwybrau dysgu unigryw a chynhwysol *Archwilio, Darganfod ac Arloesi* yn galluogi disgyblion i ddilyn llwybrau dysgu hyblyg sy'n ymateb yn effeithiol i'w hanghenion sy'n newid. Mae cynllunio'r cwricwlwm yn eang ac iddo ddilyniant da, gyda phwyslais clir ar ddysgu swyddogaethol, datblygu annibyniaeth a pharatoi disgyblion ar gyfer eu camau nesaf mewn dysgu trwy brofiadau bywyd go iawn ac ystyrlon.

Mae darpariaeth ar draws y sector 14–19 yn gydlynus a graddol, gan ymestyn dysgu disgyblion trwy brofiadau achredu, menter ac yn gysylltiedig â gwaith sydd wedi'u paru'n dda. Mae mentrau ar y safle fel y caffi sy'n cael ei gynnal gan y disgyblion, y siop flodau a'r siop anrhegion ac ailgylchu yn darparu cyd-destunau dilys i ddisgyblion gymhwyso medrau, datblygu hyder ac ennill dealltwriaeth gynyddol o fyd gwaith.

Caiff rhieni eu cynnwys yn weithredol trwy brosesau cyfathrebu a chynllun datblygu unigol (CDU) effeithiol, sy'n cefnogi dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd disgyblion. Mae disgyblion yn mynegi mwynhad cryf o ddysgu, yn enwedig lle mae gweithgareddau yn ymarferol a pherthnasol, ac yn dangos cysylltiadau clir rhwng ymgysylltu, cynnydd, annibyniaeth gynyddol a pharodrwydd ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol.

Mae arweinwyr wedi cryfhau arweinyddiaeth y cwricwlwm trwy dimau 'meysydd dysgu a phrofiad', sy'n hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd ac yn cynyddu perchnogaeth staff dros ddatblygu'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae trefniadau ar gyfer cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd yn dod yn fwy cyson ar draws llwybrau, gan gefnogi cydlyniant gwell ym mhrofiadau dysgu disgyblion.

### Addysgu ac asesu hynod bersonoledig sy'n sicrhau ymgysylltu a chynnydd ystyrlon

Ar y cyfan, mae addysgu ar draws yr ysgol wedi'i gynllunio'n dda, yn bwrpasol ac yn gweddu'n agos i anghenion unigol disgyblion. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda iawn ac yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i ddarparu cymorth sensitif a medrus sy'n hyrwyddo lefelau uchel o ymgysylltiad, yn enwedig mewn cyfathrebu, dysgu synhwyraidd a dysgu trwy brofiad. Mae adnoddau wedi'u dewis yn dda ac arferion clir yn sail i ddysgu. Mae staff yn addasu sbardunau, adnoddau a chymhlethdod tasgau yn ymatebol, yn unol ag arwyddion disgyblion, gan sicrhau bod dysgu'n parhau'n hygyrch ac ystyrlon. Mae'r dulliau medrus hyn yn helpu cynnal ffocws disgyblion. Caiff cynnydd disgyblion ei rannu'n gamau bach, cyflawnadwy sy'n cysylltu'n ddiogel â'u nodau dysgu personol a thargedau eu CDU. Defnyddir asesu parhaus yn dda gan staff i olrhain y cynnydd a wna disgyblion. Mae canmoliaeth ar lafar ac arweiniad clir ar y camau nesaf yn helpu disgyblion i ddeall eu cyflawniadau a beth i'w wneud nesaf. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw cyflymdra a her yn gweddu cystal i anghenion disgyblion unigol, sy'n cyfyngu ar ymgysylltiad ychydig iawn o ddisgyblion.

## Ciplun – Meithrin annibyniaeth a pharatoi disgyblion yn hyderus ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol

Mae dysgu yn gysylltiedig â gwaith yn nodwedd hynod gryf o ddarpariaeth yr ysgol. Mae disgyblion yn elwa ar brofiadau ymarferol, wedi'u strwythuro'n ofalus sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd oedolyn. Trwy ddarpariaeth menter ar safle'r ysgol, sef *Brews, Blooms and Bargains*, mae disgyblion yn datblygu medrau bywyd go iawn fel trin arian, paratoi bwyd, gweini cwsmeriaid a chyfathrebu'n hyderus â'r cyhoedd. Mae staff yn darparu cefnogaeth sensitif ac yn lleihau cymorth dros gyfnod, gan alluogi disgyblion i ddatblygu annibyniaeth a balchder yn eu cyflawniadau.

Mae dysgu yn y gymuned yn cryfhau paratoi ar gyfer y camau nesaf ymhellach. Mae disgyblion yn ymarfer medrau teithio, yn siopa'n annibynnol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn gysylltiedig â gwaith ar y safle ac yn y gymuned leol. Mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i gymhwyso medrau mewn cyd-destunau bywyd go iawn a datblygu hyder, gwydnwch a hunanreoleiddio. Lle bo'n briodol, mae disgyblion yn cyflawni ystod o achrediadau allanol sydd wedi'u paru'n dda sy'n cydnabod eu cynnydd ac yn cefnogi cyfnodau pontio llwyddiannus.

## Dysgu ymarferol, sy'n gyfoethog o ran cyfathrebu, sy'n magu hyder, annibyniaeth a medrau bywyd go iawn

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd a mwynhad mewn dysgu, yn enwedig mewn gweithgareddau ymarferol a bywyd go iawn. Mae medrau cyfathrebu yn gryfder arbennig, wedi'u cefnogi gan ddull cyfathrebu cyflawn cyson ysgol gyfan. Mae staff yn defnyddio arwyddion, symbolau, dyfeisiau, switshys a gwrthrychau cyfeirio yn fedrus i helpu disgyblion i wneud dewisiadau, mynegi hoffterau a dilyn cyfarwyddiadau. O ganlyniad, mae llafaredd a chyfathrebu swyddogaethol wedi'u datblygu'n dda. Er bod disgyblion yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn gweithgareddau fel ysgrifennu dyddiaduron a labelu, lle bo'n briodol, mae llawysgrifen ac ysgrifennu estynedig yn llai sicr o hyd i ychydig o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau rhifedd disgyblion yn arbennig o dda trwy weithgareddau cyson, ymarferol a phwrpasol. Mae disgyblion yn cymhwyso medrau rhif, mesur a thrin data yn hyderus mewn cyd-destunau bywyd go iawn fel siopa, coginio, dysgu yn yr awyr agored a gweithgareddau menter. Mae staff yn addasu tasgau'n ofalus gan ddefnyddio adnoddau pendant, cymhorthion gweledol ac ailadrodd i ddiwallu anghenion unigol disgyblion. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cyson mewn cyfrif, cymharu symiau ac adnabod patrymau. Mae medrau digidol yn ychwanegu at ddysgu rhifedd yn effeithiol, ac mae disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen a phlatfformau electronig i gofnodi data, labelu graffiau ac ymarfer cyfrifiadau ar lefel briodol. Lle bo'n briodol, mae disgyblion yn defnyddio offer digidol yn annibynnol i gefnogi dysgu achrededig a datblygu medrau yn gysylltiedig â chyflogadwyedd.

Mae dysgu creadigol yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau mynegiannol ac archwiliol, yn cynnwys celf, cerflunio a phrosiectau cydweithredol gydag artistiaid allanol. Mae tasgau datrys problemau ymarferol, fel paratoi bwyd yn ddiogel neu ddefnyddio offer yn ystod dysgu yn yr awyr agored, yn helpu disgyblion i ddatblygu annibyniaeth, hyder a medrau meddwl yn feirniadol.

Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, annibyniaeth a datblygiad corfforol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae disgyblion yn datblygu medrau motor manwl a bras trwy weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda fel sesiynau campfa dan do ac yn yr awyr agored, seiclo a mannau dysgu yn yr awyr agored fel y gerddi, y caeau a'r ardal goediog.

Ymgorfforir y Gymraeg yn naturiol ar draws yr ysgol trwy arferion dyddiol, caneuon a defnydd ymarferol. Mae staff yn modelu'r Gymraeg yn gyson, ac mae mentrau fel y Criw Cymraeg yn helpu disgyblion i ddatblygu hyder ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant.

### Darllen trwy ddull cyfathrebu cyflawn

Yn Ysgol Tir Morfa, mae darllen yn elfen ganolog o ddull cyfathrebu cyflawn yr ysgol ac yn cyfrannu'n gryf at gyfathrebu, annibyniaeth a lles disgyblion. Mae arweinwyr a staff yn rhannu dealltwriaeth glir a chynhwysol o ddarllen sy'n ymestyn y tu hwnt i brint i gynnwys symbolau, arwyddion, gwrthrychau cyfeirio, ystumiau ac eiconau digidol. Mae'r ddealltwriaeth hon ar y cyd yn sail i arfer gyson ac effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae darpariaeth ar gyfer darllen cynnar yn gryfder arwyddocaol. Mae staff yn defnyddio dulliau sefydledig gweledol, symbolaidd ac sy'n seiliedig ar wrthrychau, sy'n galluogi disgyblion yn y cyfnodau datblygu cynharaf, yn cynnwys y rhai ag anghenion cyfathrebu cymhleth, i ymgysylltu'n ystyrlon â thestunau a symbolau. Mae addysgu darllen yn systematig, wedi'i strwythuro'n ofalus ac yn bersonoledig, sy'n cael ei lywio gan ddefnydd cyson o wybodaeth asesu, a rennir yn effeithiol ymhlith staff i sicrhau her a chymorth priodol. Mae arweinwyr yn sicrhau parhad darpariaeth, yn cynnwys lle mae disgyblion yn aros am fewnbwn arbenigol.

Lle bo'n briodol, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol, dadgodio ac amgyffrediad cynnar trwy sesiynau dyddiol â chyflymdra da ac arferion cyson. Mae staff yn creu cysylltiadau pwrpasol rhwng darllen, ysgrifennu a chyd-destunau bywyd go iawn, gan alluogi disgyblion i gymhwyso medrau'n ystyrlon. Ymgorfforir darllen yn effeithiol ar draws y cwricwlwm trwy weithgareddau ymarferol a difyr sy'n hyrwyddo mwynhad, hyder ac annibyniaeth.

Mae arweinyddiaeth o ran darllen yn gryf ac iddi ffocws strategol. Mae arweinwyr yn monitro effaith yn drylwyr ac yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn o'u mannau cychwyn, ac mae rhai ohonynt yn cyflawni enillion cyflym, ac yn defnyddio darllen yn gynyddol i gefnogi cyfathrebu, cyfranogi ac annibyniaeth bob dydd.

### Partneriaethau amlasiantaethol cryf sy'n dileu rhwystrau rhag dysgu a lles

Mae gwaith amlasiantaethol, yn enwedig gyda gwasanaethau iechyd, yn nodwedd gref a sefydledig yn narpariaeth Ysgol Tir Morfa. Mae staff yn gweithio'n agos gydag ystod o weithwyr iechyd proffesiynol, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau allanol, sy'n cyfrannu'n rheolaidd at gyfarfodydd amlddisgyblaethol ac adolygiadau CDU. Mae hyn yn sicrhau dealltwriaeth ar y cyd o anghenion cymhleth disgyblion, ac yn galluogi cymorth amserol, wedi'i baru'n dda.

Mae cydweithwyr iechyd yn rhoi arweiniad gwerthfawr i staff a rhieni, gan gefnogi'r rheolaeth sensitif a chyson o anghenion meddygol ac emosiynol disgyblion trwy gynlluniau gofal iechyd clir a phersonoledig. Mae strategaethau tra ystyriol i gefnogi

rheoleiddio ac anghenion synhwyraidd yn helpu disgyblion i allu dysgu gyda chyn lleied o darfu ag y bo modd, a gwella lles cyffredinol.

Mae gwaith partneriaeth cryf hefyd yn sail i reoli presenoldeb yn effeithiol. Mae nodi pryderon a chymorth personoledig yn gynnar, gan gynnwys ailintegreiddio graddol, lle bo'n briodol, yn lleihau rhwystrau rhag mynychu. O ganlyniad, mae presenoldeb disgyblion yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion arbenigol tebyg ac yn parhau i wella, gan gefnogi ymgysylltu cynaledig mewn dysgu.

Mae cymorth ar gyfer lles disgyblion, arweiniad a pharatoi ar gyfer bywyd oedolyn yn Ysgol Tir Morfa yn gryfder arwyddocaol. Mae staff yn meithrin perthnasoedd hynod gadarnhaol ac ymddiriedus â disgyblion ac yn eu hadnabod yn eithriadol o dda. Maent yn ymateb â chynhesrwydd, amynedd a chysondeb, gan greu amgylcheddau digynnwrf, anogol a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae arferion sefydledig ar draws yr ysgol yn helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel ac yn gynyddol hyderus i ymgysylltu â dysgu, rhyngweithio cymdeithasol, gweithgareddau yn gysylltiedig â gwaith a phrofiadau cymunedol.

### Gwrando ar ddisgyblion a theuluoedd i gryfhau lles, cynhwysiant ac ymgysylltu

Mae rhieni a ymgysylltodd â'r broses arolygu yn gwerthfawrogi ffocws cryf yr ysgol ar les disgyblion, ac yn sôn am welliannau clir yn hapusrwydd, hyder a sicrwydd emosiynol disgyblion, yn enwedig ar ôl iddynt bontio o leoliadau blaenorol. Mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol disgyblion yn fedrus trwy ymyriadau targedig, gofodau ymddiriedus a strategaethau effeithiol sy'n helpu disgyblion i reoleiddio eu hemosiynau a gofyn am gymorth â hyder cynyddol. Caiff presenoldeb ei reoli trwy ddull cefnogol, sy'n canolbwyntio ar y disgybl, y mae gwaith partneriaeth cryf gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol yn sail iddo, gan arwain at bresenoldeb sy'n parhau i wella. Mae staff yn mynd ati i hyrwyddo llais y disgybl a chynhwysiant, gan ddarparu cyfleoedd a gefnogir yn dda i bob disgybl fynegi barn a gwneud dewisiadau, sy'n cryfhau ymdeimlad disgyblion o berthyn a balchder yn eu hysgol.

### Diwylliant arwain cynhwysol sy'n gwerthfawrogi lleisiau ac yn meithrin capasiti ar gyfer gwella

Mae gan Ysgol Tir Morfa systemau ysgol gyfan cryf, wedi'u gwreiddio'n dda sy'n galluogi arweinwyr a llywodraethwyr i werthuso darpariaeth yn gywir a chynllunio gwelliant yn effeithiol. Mae trefniadau asesu ac olrhain cadarn yn cofnodi camau bach ond ystyrlon yng nghynnydd disgyblion ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd trwy gyfarfodydd strwythuredig am gynnydd disgyblion. Mae'r prosesau hyn yn galluogi arweinwyr i nodi tueddiadau, ymateb yn brydlon i anghenion sy'n dod i'r amlwg ac addasu darpariaeth yn unol â thystiolaeth.

Mae arweinwyr yn triongli data cynnydd gyda gweithgareddau monitro fel teithiau dysgu, arsylwadau gwersi a deialog broffesiynol, gan gryfhau cywirdeb hunanwerthuso. Mae blaenoriaethau gwella yn codi'n uniongyrchol o'r dadansoddiad hwn ac yn cael eu troi'n gamau gweithredu clir, er enghraifft mireinio darpariaeth llythrennedd neu gynyddu cyfleoedd rheoleiddio synhwyraidd.

Mae uwch arweinwyr yn darparu data cynhwysfawr ac adroddiadau gwerthusol ar gyfer llywodraethwyr, sy'n cefnogi her wybodus a goruchwyliaeth strategol. Mae ailstrwythuro arweinyddiaeth yn ddiweddar, a chyfraniad cynyddol timau meysydd dysgu a phrofiad, yn cryfhau atebolrwydd a chysondeb mewn gwerthuso. At ei gilydd, mae systemau'r ysgol yn sicrhau bod hunanwerthuso yn bwrpasol a bod cynllunio gwelliant yn gydlynus, yn ymatebol ac yn canolbwyntio'n gadarn ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae capasiti arwain yn cryfhau wrth i rolau gael eu dosbarthu'n gynyddol ac atebolrwydd yn gliriach. Mae arweinwyr datblygol, yn cynnwys timau 'meysydd dysgu a phrofiad', yn dechrau cyfrannu'n ddefnyddiol at werthuso a gwelliant ysgol gyfan, er mai megis dechrau o hyd y mae'r gwaith hwn.

Mae llywodraethu wedi'i drefnu'n dda ac wedi cefnogi parhad strategol yn effeithiol, yn enwedig yn ystod newidiadau diweddar i arweinyddiaeth. Daw llywodraethwyr yn dod ag ystod eang a pherthnasol o fedrau ac maent yn cael adroddiadau cynhwysfawr, strwythuredig sy'n galluogi goruchwyliaeth wybodus. Maent yn darparu her briodol a chynyddol hyderus i arweinwyr, er mai megis dechrau datblygu y mae eu dealltwriaeth o gynnydd a phresenoldeb disgyblion, ac nid yw'n gyson gadarn eto.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026